Swyddfa'r Cyngor ● Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog ● Heol Wynne ● Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3UF

☎ 01766 832 398 ✉ dirprwyglerc@cyngortrefffestiniog.cymru

# Rhaglen

## Pwyllgor Mwynderau

**23/04/2025 • 19:00 •**

**Siambr y Cyngor ac Ar-lein**

**DEDDF CYRFF CYHOEDDUS (MYNEDIAD I GYFARFODYDD) ADRAN 1(4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, ATODLEN 12 PARAGRAFF 26(2) [A] NODER – mi fydd Cyngor Tref Ffestiniog yn cwrdd ar-lein drwy feddalwedd Zoom, fel y caniateir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 YN UNOL Â GOFYNION Y DARPARIAETHAU STATUDOL UCHOD HYSBYSIR TRWY HYN Y CYNHELIR CYFARFOD MWYNDERAU CYNGOR TREF FFESTINIOG**

**Drwy feddalwedd Zoom ar y ddolen ganlynol**

https://us02web.zoom.us/j/84884135216?pwd=S1jUgjntk1P0EFtgefL9vqRRaL243F.1

Meeting ID: 848 8413 5216
Passcode: 274961

**A hefyd wyneb yn wyneb yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog.**

**Nos Fercher 23ain o Ebrill AM 7.00 YR HWYR**
**AT GADEIRYDD AC AELODAU PWYLLGOR MWYNDERAU CYNGOR TREF FFESTINIOG. FE'CH GWYSIR DRWY HYN I FYNYCHU PWYLLGOR MWYNDERAU CYNGOR TREF FFESTINIOG. MAE HAWL GAN AELODAU'R CYHOEDD I FYNYCHU'R CYFARFOD ONI WNEIR PENDERFYNIAD PRIODOL YN EU HATAL OHONO**

**Noder y bydd y cyfarfod yn cael ei recordio oherwydd yr angen i gofnodi ar ôl i'r cyfarfod ddod i ben.**

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | | **Derbyn Ymddiheuriadau am Absenoldeb** |
| **2.** | | **Datgan Buddiannau**<br>Bydd ffurflen Datgan Buddiant Personol angen ei llofnodi yn y cyfarfod neu ei hanfon at y Clerc neu'r Dirprwy Glerc pan yn briodol. |
| **3 .** | | **Cyfranogiad y Cyhoedd**<br>Ystyried ceisiadau gan aelodau o'r cyhoedd i annerch y Cyngor mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes a gynhwysir ar yr agenda. (Mwyafswm 10 munud). |
| **4.** | | **Caeau Chwarae**<br>Arolwg misol mis Ebrill 2025 - Derbyn crynodeb o archwiliadau misol o'r caeau chwarae. |
| **5.** | | **Llwybrau Cerdded**<br>Derbyn ac adolygu adroddiad llwybrau cyhoeddus mis Mawrth/Ebrill 2025 a<br>Derbyn adroddiad gwaith ar lwybrau cyhoeddus yr ardal gan Gyngor Gwynedd |
| **6.** | | **Rhestr Waith y Swyddog Cynnal a Chadw.**<br>Derbyn adroddiad llafar ar waith y Swyddog Cynnal a Chadw yn ystod y mis diwethaf. |

| | | |
|---|---|---|
| **7.** | | **Compost Cwt Canws– Clirio'r Hen i Wneud Lle i'r Newydd**<br>Trafod trefniadau i symud neu ailddosbarthu'r compost presennol er mwyn paratoi'r ardal ar gyfer compost newydd. |
| **8.** | | **Cais gan y Clwb Bowlio – Torri'r Mieri**<br>Ystyried cais gan y Clwb Bowlio i'r Cyngor drefnu torri'r mieri yn ôl. |
| **9.** | | **Gwasanaethu Offer Chwarae a Chynnig Siglen**<br>Derbyn adroddiad bod GL Jones yn gwasanaethu'r nyth adar a'r lein zip ym Mryn Coed, a'r troellwr yn y parc. Maent hefyd wedi gofyn a fyddai'r Cyngor yn dymuno gosod siglen newydd gyffredin yn y man lle'r oedd y nyth adar o'r blaen. |
| **10.** | | **Diwrnod Agored yn y Berllan – Cymorth Ariannol gan yr Heddlu Lleol**<br>Trafod y posibilrwydd o gynnal diwrnod agored cymunedol yn y Berllan, gyda chymorth ariannol posib drwy grant gan yr heddlu lleol. |
| **11.** | | **Contract Garddio – Dosraniad a Chyfathrebu**<br>Trafod sut y bydd y contract garddio'n cael ei rannu rhwng y ddau arddwr a benodwyd yn y cyfarfod diwethaf, a sefydlu sut y bydd cyfarwyddiadau a thasgau'n cael eu cyfathrebu â hwy o hyn ymlaen. |
| **12.** | | **E-bost gan yr Arddwr Blaenorol – Trafodaeth ac Ymateb**<br>Derbyn a thrafod cynnwys yr e-bost gan yr arddwr blaenorol a chytuno ar ymateb neu gamau nesaf priodol. |
| **13.** | | **Diweddariad ar y MUGA**<br>Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y prosiect MUGA. |
| **14.** | | **Diweddariad Llafar – Tasgau'r Clerc/Ddirprwy Glerc**<br>Adroddiad llafar ar y tasgau a gwblhawyd gan y Clerc a'r Dirprwy Glerc ers y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Mwynderau. |

Ellen Pugh
Dirprwy Clerc y Dref
DYDDIAD: 16/04/2025

